| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Cyngor Sir**<br>**Pwyllgor Archwilio** |
| **Dyddiad** | **13 Medi 2011**<br>**(27 Medi 2011 – Pwyllgor Archwilio)** |
| **Pwnc** | **Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys am y Flwyddyn Ariannol 2010/11** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Comisiynydd Byron Davies** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)** |
| **Swyddog Cyswllt** | **David Elis-Williams (Ffôn/Tel:2601)** |

**Natur a rheswm am adrodd**

Cydymffurfio a'r rheoliadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 sef cyflwyno adroddiad blynyddol ar reoli trysorlys ar ôl diwedd y flwyddyn.

Mae'n rhaid cyflwyno'r adroddiad yma i'r Cyngor erbyn 30 Medi. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylai'r Pwyllgor Archwilio hefyd ystyried yr adroddiad.

## A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw

Mae'n rhaid i'r Cyngor hwn trwy reoliadau o dan ddeddf Llywodraeth Leol 2003 gynhyrchu adroddiad blynyddol y Trysorlys yn adlewyrchu gweithgareddau Rheoli Trysorlys ar ddangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2010/11. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion côd ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Côd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Y Côd Pwyllog).

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys benthyca a pherfformiad buddsoddi yn ystod y flwyddyn.

O dan y Côd Pwyllog, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol osod dangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca a buddsoddi ymysg ffactorau eraill ymhob blwyddyn. Fe gadarnhaodd y Cyngor ei gyfyngiadau am 2010/11 ar 4 Mawrth 2010 ac mae gwybodaeth am ganlyniadau wedi ei ddarparu. Mae hefyd wedi diwygio'r rhestr gwrth barti a gymeradwywyd.

Yn ystod 2010/11 y gofynion lleiaf ynglŷn ag adrodd yn ôl oedd bod y Cyngor llawn yn derbyn yr adroddiadau canlynol :-

- Strategaeth flynyddol y trysorlys o flaen y flwyddyn
- Adroddiadau diweddaru canol y flwyddyn (lleiafswm) ar y trysorlys
- Adroddiad blynyddol yn dilyn y flwyddyn ac yn disgrifio'r gweithgaredd o'i cymharu â'r strategaeth.

Mae newidiadau diweddar yn yr amgylchedd rheolaethol yn gosod llawer mwy o ddyletswydd ar aelodau i adolygu a sgriwtineiddio gweithgareddau a pholisi rheoli trysorlys. Mae'r adroddiad hwn yn bwysig yn hynny o beth gan ei fod yn darparu manylion o sefyllfa'r canlyniadau gyda gweithgareddau'r trysorlys a'i fod yn nodi cydymffurfiaeth gyda pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd ynghynt gan aelodau.

| |
|---|
| Mae’r Cyngor hwn hefyd yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda gofyn o dan y Côd i roi sgriwtini i’r adroddiadau rheoli trysorlys. Fodd bynnag, ni chyflawnwyd gyda’r gofyn i sgriwtini blaenorol o’r adroddiadau (gan y Pwyllgor Archwilio) cyn iddynt gael eu hadrodd i’r Cyngor llawn, a bydd rhaid weithredu hyn yn ystod y flwyddyn gyfredol.<br><br>Cafwyd hyfforddiant i aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod mis Tachwedd er mwyn cefnogi rôl sgriwtini Aelodau’r Pwyllgor Archwilio. Trefnir sesiwn pellach. |

| **B - Ystyriaethau** |
|---|
| Ynghlwm mae’r adroddiad blynyddol manwl ar weithgaredd rheoli trysorlys ar gyfer 2010/11 sy’n adolygu cydymffurfiaeth gyda’r Strategaeth Reoli Trysorlys ac yn adrodd ar berfformiad benthyca a buddsoddi yn ystod y flwyddyn. |

| **C - Goblygiadau ac Effeithiau** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | Awdur yr Adroddiad |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | |
| **4** | **Gwasanaethau Eiddo** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **5** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **6** | **Cydraddoldeb** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **7** | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **8** | **Cyfathrebu** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **9** | **Ymgynghori** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **10** | **Economaidd** | |
| **11** | **Amgylcheddol** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| | | |
| **12** | **Trosedd ac Anrhefn** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **13** | **Cytundeb Canlyniadau** | |

## CH – Crynodeb

Yn ystod 2010/11 fe gydymffurfiodd y Cyngor gyda'i ofynion deddfwriaethol a rheolaethol gyda'r eithriad nad oedd adroddiadau i aelodau bob tro'n cael eu sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio cyn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir.

Mae'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol allweddol sy'n manylu ar effaith gweithgareddau cyfalaf yn ystod y flwyddyn gyda chymaryddion, fel a ganlyn :-

| Dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol | 2009/10 Gwirioneddol £000 | 2010/11 Gwreiddiol £000 | 2010/11 Gwirioneddol £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf Gwirioneddol | 24,491 | 29,000 | 24,112 |
| Cyfanswm gofynion ariannu Cyfalaf:<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• Cyfanswm | 82,381<br>17,201<br>99,582 | 81,910<br>20,682<br>102,592 | 78,585<br>19,133<br>97,718 |
| Dyled Allanol | 97,615 | 102,600 | 102,600 |
| Buddsoddiadau *<br>• Mwy na blwyddyn<br>• O dan flwyddyn<br>• Cyfanswm | -<br>22,575<br>22,575 | -<br>37,000<br>37,000 | -<br>34,127<br>34,127 |

**amcangyfrifon a gwirioneddol, nid dangosydd pwyllog*

Fe ellir gweld dangosyddion pwyllog a thrysorlys eraill ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) hefyd yn cadarnhau mai ond i bwrpasau cyfalaf bu benthyca ac ni chafodd y terfynau statudol benthyca (y terfyn awdurdodedig), ei dorri.

Fe barhaodd blwyddyn ariannol 2010/11 gydag amgylchedd heriol y blynyddoedd blaenorol; dychweliadau isel ar fuddsoddiadau a risg gwrthbarti yn parhau.

## D - Argymhelliad

Argymhellir i'r Cyngor :-

**1.** Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2010/11 yn yr adroddiad hwn.

**2.** Nodi'r adroddiad rheoli trysorlys blynyddol am 2010/11.

**Enw awdur yr adroddiad – David Elis-Williams**
**Swydd – Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)**
**Dyddiad – 24 Awst 2011**

| **Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A - Adroddiad manwl<br>Atodiad 1 - Crynodeb Prisiad Portffolio<br>Atodiad 2 - Graddfeydd Bwrdd Benthyca Gweithfeydd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn<br>Atodiad 3 - Cyflwr Economaidd<br>Atodiad 4 – Perfformiad Portffolio Benthyca<br>Atodiad 5 – Dadansoddiad llog o'i gymharu a'r Feincnod<br>Atodiad 6 – Perfformiad buddsoddi<br>Atodiad 7 – Dychweliad buddsoddi cyfunol o'i gymharu a'r Feincnod |

| **Papurau Cefndirol:** |
|---|
| Strategaeth Rheoli Trysorlys 2010/11<br>Dangosyddion Pwyllog 2010/11 |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ac yn crynhoi'r swyddogaethau/gweithgareddau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2010/11:-

- Gweithgaredd Cyfalaf yn ystod y flwyddyn;
- Effaith y gweithgaredd hwn ar ddyled waelodol y Cyngor (yr Anghenraid Ariannu Cyfalaf);
- Adrodd yn ôl am y dangosyddion pwyllog a thrysorlys sydd eu hangen;
- Sefyllfa gyffredinol y trysorlys gan nodi sut y mae'r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â'r ddyled hon ar effaith ar falansau buddsoddi;
- Crynodeb o symudiadau'r gyfradd llog am y flwyddyn;
- Gweithgareddau dyled fanwl; a
- Gweithgareddau buddsoddi manwl.

## 2. GWARIANT AC ARIANNU CYFALAF Y CYNGOR 2010/11

Mae'r Cyngor yn ymgymryd â'r gwariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Fe all y gweithgareddau hyn fod naill ai :-

- Wedi eu cyllido ar unwaith trwy osod adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) nad ydynt yn cael effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu
- Wedi eu cyllido trwy fenthyca : gallai hynny fod trwy fenthyca wedi ei gynllunio neu fel arall. Os nad oes digon o adnodd ar gael, neu fod penderfyniad yn cael ei wneud i beidio defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn creu yr angen i fenthyca.

Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn ffurfio un o'r dangosyddion pwyllog sydd eu hangen. Mae'r tabl isod yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut yr ariannwyd hyn.

**<u>GWEITHGAREDD CYFALAF</u>**

| £m | 2009/10 Gwirioneddol | 2010/11 Amcangyfrif | 2010/11 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT | 15 | 20 | 15 |
| Gwariant Cyfalaf CRT | 9 | 9 | 9 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **24** | **29** | **24** |
| Cyllidwyd trwy: | | | |
| • Derbyniadau Cyfalaf | 1 | 2 | 5 |
| • Grantiau Cyfalaf | 10 | 16 | 12 |
| • Arian wrth gefn Cyfalaf | - | - | - |
| • Refeniw | 2 | 3 | 5 |
| **Gwariant Cyfalaf heb ei ariannu** | **11** | **8** | **4** |

## 3. ANGEN CYFFREDINOL Y CYNGOR I FENTHYCA

**3.1** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa ddyled y Cyngor. Mae'r CFR yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a pha adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2010/11 heb ei ariannu (gweler y tabl uchod), a gwariant cyfalaf nas ariannwyd neu wariant net blaenorol nad ydynt eto wedi eu talu trwy refeniw neu adnoddau eraill.

Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael a gofyniad cyllido'r angen hwn i fenthyca. Gan ddibynnu ar raglan y gwariant cyfalaf mae gwasanaeth y trysorlys yn trefnu sefyllfa ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i gyfarfod â'r cynlluniau cyfalaf ar ofynion am lif arian. Fe ellir cael yr arian hwn trwy fenthyca gan gyrff allanol (fel y Llywodraeth, trwy'r Bwrdd Benthyciad Gweithiau Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu ddefnyddio adnoddau arian tros dro o fewn y Cyngor.

**Gostwng y CFR**

Ni chaniateir i angen benthyca sylfaenol CFR (nid CRT) godi am byth. Mae yna reoliadau statudol yn eu lle i sicrhau bod asedau cyfalaf yn gyffredinol yn cael eu codi ar refeniw dros fywyd yr ased. Mae'n rhaid i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol a elwir yn isafswm darpariaeth refeniw - MRP er mwyn gostwng y CFR. Mae hyn yn ad-daliad o'r angen benthyca. Mae hyn yn wahanol i drefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian ar gael i gyfarfod ac ymrwymiadau cyfalaf. Fe ellir hefyd fenthyca dyled allanol neu ei dalu'n ôl ar unrhyw amser, ond nid yw hyn yn newid y CFR.

Fe all y cyfanswm CFR gael ei ostwng hefyd trwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol ( fel derbyniadau cyfalaf heb eu gosod); neu
- codi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) ym mhob blwyddyn trwy Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol (VRP).

Cafodd Polisi MRP 2010/11 y Cyngor (fel sydd ei angen gan gyfarwyddyd LLCC) ei gymeradwyo fel rhan o adroddiad strategaeth rheoli trysorlys 2010/11 ar 4 Mawrth 2010.

Mae CFR y Cyngor i'w weld isod ac mae'n cynrychioli dangosydd pwyllog allweddol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw PFI a chynlluniau prydlesu ar y fantolen sy'n cynyddu anghenion benthyca'r Cyngor, y CFR.

| CFR (£m) | 31 Mawrth 2010 Gwirioneddol | 31 Mawrth 2011 Dangosydd Gwreiddiol | 31 Mawrth 2011 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 92.3 | 98.4 | 99.6 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | 10.7 | 8.3 | 2.4 |
| Llai MRP/VRP* | 3.4 | 4.1 | 4.3 |
| Balans Cau | 99.6 | 102.6 | 97.7 |

*Yn cynnwys dewis gwirfoddol o dderbyniadau cyfalaf

Mae'r gweithgaredd benthyca yn cael ei gyfyngu gan ddangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca net a'r CFR, a gan y cyfyngiad a awdurdodwyd.

**Benthyca net a'r CFR -** er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca yn bwyllog dros y tymor canolog ni chaniateir i fenthyca allanol y Cyngor, y net o fuddsoddiadau, fod ond i bwrpas cyfalaf. Golyga hyd nad yw'r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw. Ni ddylai benthyca net, felly ar wahân i'r tymor byr, fod wedi bod yn fwy na'r CFR am 2010/11 yn ogystal ar newidiadau a ddisgwylir i'r CFR tros 2011/12 a 2012/13. Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu peth hyblygrwydd i'r Cyngor fenthyca ymlaen llaw i'w anghenion cyfalaf yn 2010/11. Mae'r tabl isod yn amlygu sefyllfa fenthyca net y Cyngor yn erbyn y CFR. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn.

| | 31 Mawrth 2010 Gwirioneddol | 31 Mawrth 2011 Gwreiddiol | 31 Mawrth 2011 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca Gros | £97.6m | £102.6m | £102.6m |
| Sefyllfa benthyca Net | £75.0 | £65.6 | £68.5 |
| CFR | £99.6m | £102.0m | £97.7m |

**3.2** Fel rhan o gyllido gwariant cyfalaf ar gyfer llynedd gwnaeth penderfyniad i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf ac arian wrth gefn refeniw yn hytrach na benthyca er mwyn lleihau'r lefel o gostau ad-dalu dyled. Oherwydd fod hwn yn newid hwyr, y canlyniad yma oedd fod benthyca allanol yn £4.9m yn uwch na'r gofyniad ariannu cyfalaf ar 31 Mawrth. Mae'r sefyllfa'n gwella wrth i £6.5m o fenthyca allanol aeddfedu eleni.

Yn gyffredinol, dros amser, rydym yn ceisio cyfatebu'r ddyled gyfartalog am y flwyddyn gyda'r CFR. Mae hyn yn golygu bod balansau refeniw a balansau eraill yn cael eu buddsoddi yn allanol ar sail fwy tactegol (yn hytrach nag ad-dalu dyled allanol). Fel yr esboniwyd yn orffennol, efallai bod y dull hwn yn ymddangos yn ddrud mewn amgylchedd cyfradd sail isel. Beth bynnag, rydym wedi modelu amryw o opsiynau ac wedi casglu mai allanoli yw'r opsiwn gorau. Mae hynny oherwydd sensitifrwydd y clandriadau ar gyfer Cymhorthdal Tai i wahanol lefelau o ddyled a hwn yw'r patrwm sy'n cael ei ddilyn gan nifer o awdurdodau lleol gyda Cyfrif Refeniw Tai. Mae hyn yn golygu fod benthyciadau a adeli'r yn amserol fel arfer yn cael eu disodli gan fenthyca newydd.

**3.3** Y dangosyddion eraill yn ymwneud a dyled yw :

**Y cyfyngiad awdurdodedig** - y cyfyngiad awdurdodedig yw'r "cyfyngiad benthyca fforddiadwy" sy'n angenrheidiol trwy adain 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Nid oes gan y Cyngor rym i fenthyca yn uwch na'r lefel hon. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Cyngor wedi cadw i'w benthyca gros yn 2010/11 o fewn eu cyfyngiad awdurdodedig.

**Y terfyn gweithredol** - y terfyn gweithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir ar gyfer y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae cyfnodau lle mae'r sefyllfa wirioneddol a'i llai yn is neu dros y terfyn yn dderbyniol cyn belled na fydd y cyfyngiad awdurdodedig yn cael ei dorri.

**Costau ariannu gwirioneddol fel cyfran o ffrwd refeniw net** - mae'r dangosydd hwn yn nodi'r patrwm yng nghost cyfalaf (benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir arall yn net o incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

| | 2010/11 |
|---|---|
| Cyfyngiad awdurdodedig | £115.0m |
| Sefyllfa uchafswm benthyca gros | £102.6m |
| Terfyn Gweithredol | £110.0m |
| Safle benthyca gros cyfartaleddog | £101.8m |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net | 6.6% |

Ar y fantolen, byddai prydlesu hefyd yn cyfri yn erbyn y terfynau awdurdodedig. Awdurdodwyd ail set o derfynau, yn rhoi sgôp am £2m o brydlesu. Nid oedd gofyn yn y flwyddyn.

## 4. SEFYLLFA TRYSORLYS AR 31 MAWRTH 2011

**4.1** Roedd ffigyrau buddsoddi a benthyca'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2010/11 a 2009/10 fel a ganlyn :-

| | 31 MAWRTH 2010 | | | 31 MAWRTH 2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | % | Aeddfedu | £000 | % | Aeddfedu |
| Bwrdd Benthyciadau Gweithiai Cyhoeddus - sefydlog | 97,615 | 5.4 | 29.5 bl | 102.608 | 5.31 | 27.6 bl |
| Buddsoddiadau | 15,000 | 2.88 | | 25,000 | 1.28 | |
| Adneuon (dim rhybudd) | 7.575 | 0.80 | | 9,127 | 0.81 | |
| Sefyllfa Net | 75,040 | | | 68,481 | | |

Mae rhain yn cael eu dangos ym mantolen y Cyngor fel "gwerth teg" : gweler dadansoddiad manylach yn Atodiad 1.

**4.2** Dadansoddir benthyca ymhellach drwy gyfnodau aeddfedu :-

| £m | 31 Mawrth 2010 | | 31 Mawrth 2011 | | Cyfyngiadau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm benthyca tymor hir | 97.6 | 100% | 102.6 | 100% | uwch | is |
| < 1 blwyddyn | 0.0 | 0% | 6.5 | 6% | 20% | 0% |
| 1 - 2 flynedd | 6.5 | 7% | 0.0 | 9% | 20% | 0% |
| 2 - 5 mlynedd | 6.5 | 7% | 6.5 | 6% | 50% | 0% |
| 5 - 10 mlynedd | 10.5 | 11% | 20.0 | 19% | 75% | 0% |
| > 10 mlynedd | 74.1 | 75% | 69.6 | 68% | 100% | 0% |

**4.3** Fe barhaodd y patrwm tuag at gyfraddau llog tymor sefydlog is ar y portffolio benthyciadau'r flwyddyn hon oherwydd i fenthyciadau newydd gael eu cymryd ar gyfraddau sydd yn sylweddol is na'r gyfradd cyfartaleddog ar y portffolio. Fe wnaeth y gweithgareddau hyn hefyd leihau hyd cyfartaleddog y portffolio.

**4.4** Mae rhan o adneuon y Cyngor yn cael eu dal mewn cyfrifon adneuon dirybudd sy'n talu llog ar raddfeydd ger y raddfa seiliol bresennol (£9.127m, £7.575m yn 2011). O'r adneuon sy'n weddill roedd £25m yn cael eu dal am gyfnodau o hyd at 364 diwrnod ar 1.20% i 1.35% (£15m @ 1.00% i 6.55% yn 2010).

Nid oedd unrhyw fuddsoddiadau gyda chyfnodau heb ddod i ben o dros 364 o ddyddiau.

## 5. STRATEGAETH TRYSORLYS AM 2010/11

**5.1** Roedd ein strategaeth trysorlys 2010/11, fabwysiadwyd at 4 Mawrth 2010, yn seiliedig ar y disgwyliad byddai cyfraddau'n cynyddu'n raddol yn ystod y flwyddyn, felly fe ddylai fod yn fanteisiol i amseru benthyciadau newydd tymor hir i ddechrau'r flwyddyn pan fyddai cyfraddau PWLB 25 mlynedd yn disgyn yn ôl neu yn is na'r raddfa ganolog a ragwelwyd o tua 4.65%, pwynt sbarduno addas i ystyried benthyca tymor hir graddfa sefydlog newydd. Disgwylwyd byddai benthyca tymor amrywiol neu fyr yn ffurf ratach o fenthyca yn ystod y cyfnod.

**5.2** Fel y digwyddodd, roedd y sefyllfa economaidd fel yr amlinellir yn Atodiad 2 a'r graddfeydd PWLB fel y dangosir yn Atodiad 3. Cafodd y newid annisgwyl ym mholisi'r PWLB yn Hydref 2010 effaith ar weithredu'r strategaeth – canlyniad y newid polisi oedd cynnydd yng ngraddfeydd benthyca newydd o 0.75% i 0.85% heb y cynnydd arferol yng ngraddfeydd ad-dalu'n gynnar. Gwnaeth hyn fenthyca newydd yn ddrytach ac ad-dalu yn gymharol llai deniadol.

**5.3** Benthycodd y Cyngor £5m am 9 mlynedd ar 3.72% ym Mai 2010 cyn y cynnydd graddfa. Ni fenthycwyd rhagor ar ôl Hydref a ni ad-drefnwyd unrhyw fenthyciad. Dangosir gwybodaeth perfformiad a meincnodi yn Atodiadau 4 a 5.

## 6. EFFAITH AR 2011/12 A'R STRATEGAETH ARIANNOL

**6.1** Roedd y strategaeth a chytunwyd arni ar gyfer 2011/12 yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai benthyca allanol (£7.0m) yn cael ei ddefnyddio'n llawn. Lleihawyd y CFR gan benderfyniadau cyllidol ar ôl diwedd y flwyddyn, a amlinellwyd uchod. Effaith hynny oedd gostwng yr hyn a godir ar refeniw o ran llog 2011/12; adroddwyd ar hyn ar wahan i'r Bwrdd Comisiynwyr fel rhan o'r Adroddiad Monitro Chwarter 1 ar Gyllideb y Refeniw.

**6.2** Mae'r lefel y benthyca yn golygu y dylai'r portffolio aros yn ddiogel o fewn y terfynau a gymeradwywyd a nid oes reswn i cynnig unrhyw newidiadau i'r terfynau trysorlys ar hyn o bryd.

## 7. BUDDSODDI

**7.1** Parhaodd y cyflwr ariannol tyn yn dilyn yr argyfwng cyllidol 2008, drwy 2010/11 gydag ychydig o symudiad materol yng ngraddfeydd adneuon tymor byrrach. Pahaodd y Graddfa Banc ar y graddfa hanesyddol isel o 0.5% drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, gwelwyd adferiad yng ngraddfeydd 6 a 12 mis oherwydd disgwyliadau cynyddol y farchnad o gychwyn tynhau ariannol.

Troslunwyd y dychweliadau buddsoddi gymharol isel gan bryderon parhaus y gwrthbartïon, yn amlycaf yn yr argyfwng dyled sofran ardal Euro gyda'r canlyniad o becynau achub i Wlad Groeg, yr Iwerddon ac yn ddiweddarach Portiwgal. Estynodd y pryderon i'r diwydiant bancio Ewropeaidd gyda'r profion pwysau cychwynnol yn methu tawelu ofnau'r gwrthbartion, gyda'r canlyniad fod ail rownd o brofion yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Amlygodd hyn yr angen cyfredol am bwyll yng ngweithgareddau buddsoddi trysorlys.

**7.2** Y strategaeth buddsoddi disgwyliedig oedd i gadw i adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod) er cadwyd y gallu i fuddsoddi hyd at gyfnodau hwy. Disgwyliais falansau arian parod o £37m fod ar gael ac yn amrywio rhwng £25m a £45m. Gosodwyd y gyllideb ar 0.90% neu £410k ar ôl addasu ar gyfer graddfeydd uwch ar fuddsoddiadau'n bodoli eisoes. Fel roedd pethau, derbyniwyd £445k o falansau ar gyfartaledd o £38.9m.

**7.3** Mae'r cyfraddau cyfartalog a gyflenwyd yn 2010/11 o gymharu ag awdurdodau lleol eraill i'w gweld yn atodiadau 6 a 7. Mae ein perfformiad cyffredinol (1.14%) yn dangos ein bod wedi gwneud yn well na'r clwb meincnodi (0.88%) ac bod yn cymharu'n dda yn genedlaethol gyda'r perfformiad cyfartalog (1.19%) ond mae hyn yn erbyn grwp yn cynnwys nifer o awdurdodau sydd wedi cymryd safbwynt eithriadol o wrthwynebus i risg.

**7.4** Ar sail mis wrth fis roedd dychweliad y Cyngor yn sylweddol uwch (1.19% - 1.78%) yn y chwarter cyntaf hyn nes yr oedd y tymor sefydlog dwy flynedd gyda Barclays (6.55%) wedi aeddfedu. Roedd y dychweliad ar gyfer naw mis a oedd yn weddill o'r flwyddyn rhwng 1.01% a 1.11%.

## 8. DIOGELWCH AC ANSAWDD CREDYD

**8.1** Ni chafodd unrhyw un o'r sefydliadau roedd gennym fuddsoddiadau ynddynt unrhyw anhawster i ad-dalu buddsoddiadau a llog ar amser ac yn llawn yn ystod yn flwyddyn.

**8.2** Yn ystod 2010/11, parhaodd graddfeydd credyd i fod yn wael ar draws amrediad o'n wrth bartïon arferol, gan gynnwys rhan fwyaf o'r cymdeithasau adeiladu. Ers diwedd 2008 bydd yn gynyddol anodd adneuo gyda gwrth partïon priodol. Ym mis Rhagfyr 2008, cefais ganiatâd gan y Cyngor i estyn hyblygrwydd gyda gwrth partïon i ddelio gyda newidiadau yn y farchnad; roedd hyn yn cynnwys y gallu i fuddsoddi'r cyfan o'n cyllid dros ben gyda'r llywodraeth ganolog os fydd angen. Lledaenwyd y rhestr ymhellach yn Ebrill 2010 i gynnwys sefydliadau gwladol a sefydliadau rhannol wladol. Roedd penderfyniadau blaenorol wedi ymestyn hyblygrwydd ar gyfer buddsoddi gydag awdurdodau lleol. Oherwydd ein bod wedi mabwysiadu dull o wrando ar gyngor arbenigwyr, ac oherwydd ein bod wedi cymeryd i ystyriaeth dueddiadau farchnad ac wedi bod yn wyliadwrus roedd modd i ni wella ansawdd credyd o fewn rhestrau gwrth partïon cyfredol.

**8.3** Effaith ymarferol y polisïau hyn oedd fel a ganlyn: Yn ystod y flwyddyn parhawyd i ddefnyddio cyfrifon dim rhybudd a rhybudd byr gyda sefydliadau blaenllaw ar y stryd fawr (Santander, Royal Bank of Scotland a Clydesdale Bank) ar gyfer arian llif o ddydd i ddydd.

Aeddfedodd y tri buddsoddiad tymor sefydlog (£15.0m) gyda banciau Prydeinig o safon uchel yn ystod y flwyddyn. Cymerwyd eu lle gan fuddsoddiadau arall gyda banciau Prydeinig. Ni fy rhaid adneuo arian gyda'r llywodraeth ganolog.

**DAVID ELIS-WILLIAMS**
**CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL(CYLLID)** **7 MEDI 2011**